

Polisi Apeliadau Mewnol a Chymwysterau Allanol Ysgol Eifionydd



Mae Polisi ar Apeliadau Ysgol Eifionydd mewn dwy ran:

1. Polisi ar Aseidiadau Mewnol ar gyfer Cymwysterau Allanol
2. Polisi ar Aseidiadau Allanol ar gyfer Cymwysterau Allanol (Ymholiadau am Ganlyniadau)

1. Polisi ar Aseidiadau Mewnol ar gyfer Cymwysterau Allanol

Mae Ysgol Eifionydd yn ymrwymo i sicrhau bod:

- o Aseidiadau mewnol yn cael eu cynnal gan aelodau o'r staff dysgu sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau priodol ac sydd wedi'u hyfforddi yn y maes hwn.
- o Tystiolaeth asesu a ddarparwyd gan ymgeiswyr wedi'i gynhyrchu a'i ddilysu yn ôl gofynion Corff Dyfarnu'r pwnc dan sylw.
- o Cysondeb yr asesu mewnol yn cael ei gynnal trwy safoni a chymedroli mewnol.
- o Yr holl waith myfyriwr a asesir gan athrawon ar gyfer cymwysterau allanol yn cael ei gyflawni'n deg, yn gyson ac yn unol â rheolau a rheoliadau'r fanyleb yn ymwneud â'r cymhwyster.

Nodyn i fyfyrwyr

- A. Os oes gan fyfyrwr unrhyw bryderon am y dulliau gweithredu a ddefnyddir wrth asesu eu gwaith asesiad mewnol ar gyfer arholiadau cyhoeddus h.y. asesiad dan reolaeth/gwaith cwrs/portffolios, dylai ef/hi drafod y mater â Phennaeth y Pwnc ar unwaith. Wedi hynny, os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, gall y myfyriwr dan sylw ddefnyddio'r drefn apelio ffurfiol.
- B. Mae'r rheoliadau ar gyfer Aseiniadau Gwaith Cwrs TGAU, TAG, Lefel Mynediad, BTEC a Chymhwyster Project ac Aseidiadau dan Reolaeth TGAU yn nodi'r canlynol:
 - o "Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w asesu fod eich gwaith chi eich hun"
 - o "Ni ddylech gopio wrth rywun arall na gadael i ymgeisydd arall gopio wrthyh chi"
 - o "Os ydych yn copio geiriau neu syniadau pobl eraill ac nid ydych yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, bydd hyn yn cael ei ystyried fel twyll neu gamymddwyn"

Mae gan athrawon yr hawl i wrthod gwaith myfyriwr ar sail camymddwyn os bydd unrhyw rai o'r rheoliadau uchod yn cael eu torri.

Mae gan y myfyriwr, rhiant neu warcheidwad myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau i wrthod gwaith gan ymgeisydd a aseswyd yn fewnol ar sail camymddwyn.

Y Drefn Apelio Ysgrifenedig

Dylai'r myfyriwr, rhiant neu warcheidwad myfyriwr sydd am apelio yn erbyn y dulliau a ddefnyddiwyd wrth asesu'n fewnol ysgrifennu at y Swyddog Arholiadau cyn gynted ag y bydd y mater yn codi. Dylai'r ceisiadau am apêl gyrraedd yr ysgol ddeg diwrnod fan bellaf cyn dechrau'r gyfres arholiadau ysgrifenedig. Bydd apeliadau mewnol yn cael eu hystyried, a'u datrys, erbyn dyddiad y papur asesiad allanol olaf yn y gyfres [e.e. erbyn diwedd Mehefin yn achos cyfres yr haf].

Pan dderbynnir apêl ysgrifenedig, cynhelir ymholiad i'r asesiad mewnol gan y Swyddog Arholiadau, aelod o'r Uwch Dîm Rheoli a Phennaeth Adran nad yw'n ymwneud â'r penderfyniad asesiad mewnol. Bydd yr ymholiad hwn yn ystyried a oedd y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr asesiad mewnol yn cydymffurfio â'r gofynion a gyhoeddwyd gan y Corff Dyfarnu a Chod Ymarfer yr Adran Addysg a Sgiliau.

Bydd y myfyriwr, rhiant neu warcheidwad yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl [yn cynnwys gohebiaeth berthnasol gyda'r Corff Dyfarnu] cyn dyddiad cyhoeddi canlyniadau arholiadau'r dyfarniad.

Bydd cofnod ysgrifenedig o'r apêl a'r canlyniad yn cael ei gadw ar ffeil yn y ganolfan a hysbysir y Corff Dyfarnu o unrhyw newidiadau.

2. Polisi ar Aseidiadau Allanol ar gyfer Cymwysterau Allanol [Ymholiadau am Ganlyniadau - YAG]

Pan gyhoeddir y canlyniadau, os bydd unrhyw fyfyrwr am ymholi am farc/gradd a ddyfarnwyd gan Gorff Dyfarnu, dylai ddilyn y drefn ganlynol:

- I. Mynd i weld y Swyddog Arholiadau **ac** athro'r pwnc cyn gynted â phosibl [ond o leiaf *5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer YAG*] i drafod y marc/gradd. Bydd y Swyddog Arholiadau'n rhoi cyngor ar yr opsiynau sydd ar gael o ran ymholi am y marc/gradd a'r costau sydd ynghlwm â hyn.
- II. Dylai myfyrwr fod yn ymwybodol y gall cyflwyno YAG olygu bod marciau / graddau'n cael eu codi, eu cadarnhau neu eu gostwng. Rhaid i fyfyrwr lofnodi ffurflen gydsynio i gadarnhau eu bod yn deall canlyniadau YAG. Bydd y Swyddog Arholiadau'n dosbarthu ffurflenni cydsynio.
- III. Bydd athro'r pwnc yn adolygu marciau/graddau'r myfyrwr ac yn trafod â Phennaeth yr Adran i gytuno ar sut i weithredu gan ystyried crynodeb y marciau, y ffiniau gradd a rhagolygon graddau'r myfyrwr.

Os yw'r Adran yn cytuno i gefnogi'r YAG:

- a. Dylid cyflwyno'r cais, ynghyd â ffurflen gydsynio'r myfyrwr, i'r Swyddog Arholiadau *cyn y dyddiad a gyhoeddir ar gyfer gwneud YAG*. Cyllideb yr adran fydd yn cwrdd â chost yr ymholiad. Ad-delir y tâl hwn os bydd yr apêl yn llwyddo.

Os nad yw'r Adran yn cytuno i gefnogi'r YAG:

- b. Gall myfyrwr apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chefnogi'r YAG. Dylid cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig i'r Swyddog Arholiadau, o leiaf *5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer YAG*. Dylai'r apêl nodi, yn fanwl, y rheswm (rhesymau) dros yr apêl. Dylid llofnodi a dyddio'r apêl a dylai gynnwys rhif ffôn y myfyrwr, rhiant neu warcheidwad yn ystod y dydd. Bydd y Swyddog Arholiadau ac aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r wybodaeth apêl; cyfathrebir canlyniad yr apêl mewn galwad ffôn a llythyr dosbarth 1af o fewn 24 awr i'w dderbyn. Mae'r penderfyniad hwn yn derfynol.
 - c. Os nad yw'r ganolfan yn cefnogi'r YAG gall y myfyrwr fynd ymlaen â'r YAG ond bydd y myfyrwr yn talu holl gostau'r YAG ar adeg gwneud yr YAG. Ni wneir unrhyw YAG tan y bydd y ffioedd wedi'u talu. Rhaid gwneud ceisiadau'n bersonol i'r Swyddog Arholiadau *cyn y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer YAG*. Os bydd yr ymholiad yn llwyddo ad-delir y tâl i'r myfyrwr.
- IV. Bydd canlyniadau unrhyw YAG yn cael eu hanfon ymlaen gan y Swyddog Arholiadau i'r myfyrwr cyn gynted ag y byddant wedi'u derbyn gan y Cyrff Dyfarnu.

3. Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol

Polisi Ysgol Eifionydd yw cydnabod dysgu blaenorol fel dull o asesu os yw profiadau a chyflawniadau dysgwr yn bodloni gofynion tystiolaeth yr Uned BTEC. Rhaid i'r dystiolaeth cefnogi fod yn ddilys, yn ddibynadwy ac o gywirdeb hafal i asesu safonol yr Uned dan sylw. Mae hyn yn golygu y dylai'r dystiolaeth cyd-fynd yn fras â'r gofynion tystiolaeth a bennir yn yr Uned.

--Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen--